



CYNLLUN GWELLA 2006-07



AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Lluniwyd dan adran 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 a chyhoeddwyd yn unol â'r trefniadau dros dro a wnaed gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer yr Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru



CYNGOR Y CYNULLIAD AR GYNLLUNIAU GWELLA YN 2006

Cyngor y Cynulliad yn Awst 2006 oedd y bydd yr Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru, yn unol ag egwyddorion Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella, yn llunio Cynllun Gwella ar gyfer 2006-07 a fydd yn cynnwys yr hyn a ganlyn:-

- crynodeb o amcanion strategol yr awdurdod a'r blaenoriaethau ar gyfer gwella;
- trefniadau ar gyfer ymdrin â blaenoriaethau'r awdurdod ar gyfer gwella yn 2006-2007;
- manylion am berfformiad yn 2005-06;
- perfformiad alldro dros y flwyddyn ddiwethaf (h.y. 2005-2006) o ran pob Dangosydd Perfformiad Gwerth Gorau (DPGGau);
- targedau am y flwyddyn gyfredol (2006-2007).

CYNNWYS CYNLLUNIAU GWELLA

Yn unol â'r trefniadau dros dro, ni fydd raid i'r Awdurdodau Tân ac Achub gyhoeddi gwybodaeth yn eu Cynlluniau Gwella sydd eisoes yn cael ei gyhoeddi neu ar gael trwy ffynhonnell arall. Mae hyn yn cynnwys yr wybodaeth a ganlyn:

- crynodeb o wybodaeth ariannol;
- y cynnydd wrth weithredu mesurau gwella dros y 3 blynedd diwethaf (er y gallai fod o fudd i'r Awdurdodau ddangos lle gellir cael yr wybodaeth hon);
- canlyniadau neu effeithiau sy'n dod trwy'r mesurau hynny.

CYHOEDDI

At ddiben y trefniadau dros dro hyn, dylid cyhoeddi'r Cynlluniau Gwella mewn ffordd y gwêl yr Awdurdodau'n dda i ateb anghenion gwybodaeth i'r Awdurdod ei hun, ei staff, ei bartneriaid a'r cyhoedd.

Eleni fe all yr Awdurdodau, os ydynt yn dymuno, ddefnyddio eu Cynlluniau Lleihau Risg fel cyfrwng i gyhoeddi eu Cynlluniau Gwella. Rhaid i'r testun fodd bynnag ei gwneud yn glir fod y cyhoeddiad yn cyflawni dyletswydd statudol perthnasol yr Awdurdod. Byddai cyhoeddi testun megis "Y ddogfen hon yw Cynllun Gwella Awdurdod Tân ac Achub --- a luniwyd dan Adran 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999" yn ateb y gofyniad hwn.

CYNNWYS

Cyflwyniad a Nodyn Esboniadol	2
Adran 1	
Crynodeb o'r amcanion strategol a'r blaenoriaethau ar gyfer gwella	3
Nodau corfforaethol	3
Amcanion corfforaethol	4
Adran 2	
Edrych yn ôl ar welliannau yn 2005-06	5
Gwelliannau penodol yn 2005-06	9
Argymhellion yr archwiliad 2005-06	11
Adran 3	
Ein cymharu ein hunain ag eraill	13
Adran 4	
Blaenoriaethau ar gyfer gwella yn 2006-07	14
Targedau ar gyfer gwella yn 2006-07	17
Archwiliad o Gynllun Gwella 2006-07	20
Adran 5	
Edrych ymlaen i wella yn 2007-08	21
Adran 6	
Perfformiad diweddar a thargedau ar gyfer gwella	23
Adran 7	
Datganiad ynghylch cytundebau	34
Adran 8	
Ffynonellau gwybodaeth	35

CYFLWYNIAD A NODYN ESBONIADOL

Trefniadau dros dro

Dyma ein trydydd Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau a luniwyd dan y trefniadau dros dro a wnaed ar gyfer awdurdodau tân ac achub Cymru.

Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella (WPI)

Cafodd y canllaw ar Raglen Cymru ar gyfer Gwella, oedd wedi ei ddatblygu'n wreiddiol yn 2002 ar gyfer cynghorau sir a bwrdeistrefi sirol ac awdurdodau parciau cenedlaethol, ei adolygu a'i gyhoeddi yn ei ddiwyg diweddaredig yn Rhagfyr 2005.

Wedi datganoli'r cyfrifoldeb am y gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru i'r Cynulliad Cenedlaethol yn Nhachwedd 2004, mae gwaith wedi mynd rhagddo i ddatblygu canllawiau statudol a fframwaith asesu ar gyfer Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella mewn perthynas â Tân ac Achub.

Rydym yn rhagweld y bydd y Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella - Tân ac Achub yn cael ei chyflwyno'n iawn o Ebrill 2007 ymlaen. Yn y cyfamser, cafodd yr awdurdodau tân ac achub yng Nghymru eu cynnwys trwy amryfusedd o fewn Gorchymyn Llywodraeth Leol (Cynlluniau Gwella) (Cymru) 2006. Arweiniodd hyn at ofyniad annisgwyl i lunio Cynllun Gwella cyn diwedd Hydref 2006 dan drefniadau dros dro a gynigwyd gan y Cynulliad mor ddiweddar ag Awst 2006.

Dangosyddion Perfformiad Statudol

O ran y dangosyddion perfformiad statudol y caiff awdurdod tân ac achub ei fesur yn ei erbyn, mae'r rhain hefyd wrthi'n cael eu datblygu ar gyfer Cymru. Nid oedd y Gorchymyn Llywodraeth Leol a oedd yn nodi Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau ar gyfer y cynghorau sir a bwrdeistrefi sirol - Rhif. 665 (W55) 2005 – yn berthnasol i wasanaethau tân ac achub. Rydym felly wedi defnyddio'r gyfres bresennol o Ddangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau fel y nodwyd ar gyfer awdurdodau tân ac achub yn Lloegr at y diben hwn, ac eithrio DPGG 3 (bodlonrwydd y cyhoedd) a DPGG 157(e-wasanaethau).

Adran 1

CRYNODEB O'R AMCANION STRATEGOL A'R BLAENORIAETHAU AR GYFER GWELLA

Ein cenhadaeth yw gwneud Gogledd Cymru yn ardal fwy diogel i fyw ynddi, i weithio ynddi ac i ymweld â hi.

NODAU CORFFORAETHOL

Mae'r pum nod sylfaenol hyn yn adlewyrchu pob agwedd ar yr hyn y mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn dymuno ei gyflawni yn ei waith o ddydd i ddydd.

1. Atal tanau damweiniol a maleisus.
2. Amddiffyn pobl rhag cael eu lladd neu eu hanafu oherwydd tân a pheryglon eraill.
3. Amddiffyn y Gymuned, busnesau a'r Amgylchedd rhag cael niwed gan dân a pheryglon eraill.
4. Dod o hyd i ffyrdd i wella er mwyn ateb disgwyliadau'r Gymuned.
5. Gweithredu mor effeithiol ac effeithlon ag y gallwn, gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael inni.

AMCANION CORFFORAETHOL

I gefnogi ein Nodau Corfforaethol, mae gennym gyfres o ugain o amcanion clir sy'n disgrifio sut rydym yn bwriadu mynd ati i gyflawni ein nodau.

I gyd-fynd â Nod 1, rydym am:

- 1) Atal Tanau Damweiniol drwy:
 - Addysg Diogelwch Tân mewn ysgolion a mannau eraill
 - Gweithgareddau Diogelwch Tân Cymunedol
 - Gweithredu deddfwriaeth Diogelwch Tân mewn adeiladau perthnasol
 - Hybu gwasanaethu'r Uned Diogelwch Tân Masnachol
- 2) Atal tanau maleisus drwy:
 - Geisio dylanwadu ar ymddygiad grwpiau penodol o bobl
 - Cymryd rhan mewn gweithgareddau ar y cyd â'r Heddlu ac asiantaethau eraill er mwyn gostwng nifer y tanau bwriadol

I gyd-fynd â Nod 2, rydym am:

- 3) Cynnal ein gallu i ymateb yn effeithiol drwy:
 - Gadw ffordd effeithiol o roi gwybod i'r Gwasanaeth
 - Darparu gwaith effeithiol trwy'r Ystafell Reoli
 - Mynd at ddigwyddiadau â'r adnoddau priodol a diffoddwyr tân hyfforddedig sydd â'r offer cywir
- 4) Hyrwyddo'n egnïol y ddarpariaeth i rybuddio'n gynnar a dianc o bob adeilad petai yna dân
- 5) Rhoi cyngor i unigolion a sefydliad ar sut i ymateb orau petai yna dân

I gyd-fynd â Nod 3, rydym am:

- 6) Leihau cymaint ag y bo modd ar y tarfiadau ar weithgareddau arferol ar ôl tân neu argyfwng arall
- 7) Cynorthwyo pobl i ddod dros argyfwng a thrychinebau yn fuan
- 8) Sicrhau bod ein dulliau gweithredu ni yn achosi cyn lleied o ddifrod ag y bo modd trwy ddefnyddio arferion sy'n rhai cyfrifol a gofalus o'r amgylchedd

I gyd-fynd â Nod 4, rydym am:

- 9) Gadw deialog ystyrlon â'r Gymuned rydym yn ei gwasanaethu, ein partneriaid a rhanddeiliaid eraill
- 10) Ymateb yn gadarnhaol i unrhyw gwynion a gawn
- 11) Medru dangos ein hymroddiad parhaus i degwch a chydaddoldeb ym mhob maes gweithgarwch
- 12) Darparu gwasanaeth cyflawn dwyieithog lle caiff y Gymraeg a'r Saesneg eu trin yn gyfartal
- 13) Bod o blaid safonau proffesiynol, a chadw atynt bob amser
- 14) Cydymffurfio â phob deddfwriaeth sy'n berthnasol i'r Gwasanaeth Tân
- 15) Defnyddio'r Fframwaith Gwerth Gorau i ddwyn y Gymuned i mewn wrth geisio cael gwelliannau parhaus yn ein holl waith

Ac i gyd-fynd â Nod 5, rydym am:

- 16) Ddefnyddio a gwella'n barhaus ein prosesau o fewn fframwaith Rheoli Perfformiad cydnabyddedig fel rhan o'r drefn Gwerth Gorau
- 17) Chwilio am gyfleoedd am bartneriaethau a chydweithio a chyfrannu atynt er mwyn cael y mwyaf o allu i wasanaethu'r cyhoedd
- 18) Cadw dulliau dynamig a hyblyg i wella, gan gynnwys datblygu ein sefyllfa fel cyfranwyr gweithgar yn y byd masnachol
- 19) Addasu ein polisiâu a'n dulliau gweithredu i ateb heriau a disgwyliadau newydd tra'n parhau i gydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol
- 20) Rheoli ein hadnoddau yn dda, a gofalu bod ein gwasanaeth heddiw ac yn y dyfodol yn cael eu cyflwyno'n effeithiol, yn effeithlon ac yn economaidd

Adran 2

EDRYCH YN ÔL AR WELLA YN 2005-06

Mae'r Awdurdod Tân ac Achub yn ceisio gweithredu strategaethau'n barhaus a fydd yn cyfrannu at wella diogelwch y cyhoedd. Rydym yn ymgynraedd at ragoriaeth wrth ddarparu ein holl wasanaethau, ond y llynedd fe wnaethom ni dynnu sylw yn ein Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau am y tro at rai meysydd penodol o weithgarwch yr oeddem yn eu hystyried yn feysydd blaenoriaeth.

Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella

Cyfeirir at hon yn Adran 1.

Y Fframwaith Cenedlaethol

Daeth y ddogfen Fframwaith Cenedlaethol gyntaf ar gyfer y gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru i rym ym Mawrth 2005. Cafodd y targedau ar gyfer gwella mewn perthynas ag amrywiaeth o faterion eu cynnwys, a rhagor o eglurhad wedi ei gynllunio yn ystod ei oes. Dan Adran 25 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, mae gofyn i'r Cynulliad adrodd cyn Mawrth 2007 i ba raddau y mae'r awdurdodau tân ac achub yn gweithredu yn unol â'r Fframwaith; a'r camau a gymerodd y Cynulliad i sicrhau bod yr awdurdodau tân ac achub yn gweithredu yn unol â'r Fframwaith. Mae'r cynnydd a wnaed yn ystod 2005-06 yn cynnwys:

1. Safonau Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub

Ym Mawrth 2006, fe gyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad ei Safon cyntaf ar gyfer y gwasanaethau tân ac achub, ac mae'n ymwneud â Thanau yn y Cartref. Y disgwyl yw i Safonau Gwasanaeth eraill gael eu cyhoeddi yn ymwneud â gwrthdrawiadau ar y ffyrdd, tanau mewn adeiladau a digwyddiadau brys eraill.



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Safon Gwasanaeth - Tân ac Achub

Mae'r Safon Gwasanaeth ar gyfer cyrraedd tanau yn y cartref wedi ei ddatblygu yn seiliedig ar becyn cynhwysfawr sy'n ystyried poblogaeth (nifer y bobl), dwysedd poblogaeth (pa mor anghysbell) a'r math o boblogaeth (y risg o dân).

Mae'r Safon Gwasanaeth hwn yn ceisio darparu amser cyrraedd tân yn y cartref o 10 munud i 80% o gartrefi yng Nghymru. Mae'r Safon Gwasanaeth hefyd yn cydnabod y bydd rhai ardaloedd oherwydd nifer y boblogaeth leol, dwysedd y boblogaeth a'r mathau o boblogaeth yn cael amser cyrraedd at dân yn y cartref sy'n 5 munud. Y ffactor a fydd yn pennu ai cyflwyno amser cyrraedd o 5 munud ai peidio yw pan fod pecyn cyfrifiadurol Gofal Brys y Gwasanaeth Tân (FSEC) yn rhagweld cyfradd farwolaethau sy'n fwy na 6.

Hefyd, lle bo'r pecyn yn dosbarthu ardaloedd hyn rhai sydd â risg uwch na'r cyfartaledd, bydd angen i bob Awdurdod asesu'r risg a'r anghenion unigol. Lle bo'r ardaloedd hyn yn bod rhaid i bob Awdurdod weithredu math arall o strategaeth lleihau risg sy'n ategu'r Safon Gwasanaeth hwn. Dyma faes lleihau risg y mae'r Awdurdodau'r cael eu hannog i ddatblygu strategaethau gwreiddiol ar gyfer lleihau risg.

Cyhoeddwyd Mawrth 2006

Mae mesur cadarn o berfformiad ar gyfer monitro cynnydd yn erbyn y Safon Gwasanaeth hwn wrthi'n cael ei ddatblygu.

2. Cynlluniau Lleihau Risg (RRP) a Chynlluniau Integredig Risg Rheoli (IRMP)

Y llynedd fe wnaethom ni gyfeirio yn ein Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau am y tro at dair blynedd gyntaf y cynllunio integredig ar reoli risg, a wnaethpwyd yn unol â chanllawiau a ddaeth gan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog. Cafodd ein cynllun gweithredu ar gyfer yr ail flwyddyn (2005-06) sef "Eich Gwasanaeth, Eich Llais" ei gymeradwyo gan yr Awdurdod ar Fawrth 2005.

Yn gryno, roedd y pwyntiau gweithredu yn 2005-6 yn ymwneud â:

- Gwelliannau yn y gyfundrefn gynllunio Diogelwch Tân Cymunedol;
- Cydweithredu ag awdurdodau eraill i leihau risg, a gwneud gwelliannau trwy gael gwell canlyniadau cyffredin;

DRAFFT I'W GYMERADWYO

- monitro effeithiolrwydd amseroedd dechrau a gorffen shifftiau ar orsafoedd criw dydd;
- newidiadau yn unol â'r Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân);
- cynyddu'r defnydd o dechnoleg i fod yn sail i wneud penderfyniadau strategol, canolbwyntio'r gwaith atal ar y rhai sydd fwyaf agored i dân, a gwella'r ffordd y mae adnoddau'n cael eu hanfon allan;
- rhesymoli'r ffordd mae staff yr ochr weithredol yn cael eu defnyddio;
- cynyddu faint o waith Diogelwch Tân Cymunedol a wneir;
- ymchwilio i effeithiolrwydd yr amseroedd shifftiau ar orsafoedd tân 24 awr.

Ym Mawrth 2006, cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad arweiniad at Gynlluniau Lleihau Risg ("Cymru Gwlad Fwy Diogel"), a phwysleisio, fel nad oedd amheuaeth o hynny, fod y Cynlluniau Lleihau Risg yn dod yn lle'r polisi blaenorol sef y Cynlluniau Integredig Rheoli Risg, a hynny'n dod i rym ar Fawrth 21ain 2006.

Cymeradwywyd ein Cynllun Lleihau Risg drafft a dwyieithog gan y r Awdurdod ddim ond tair wythnos ar ddeg yn ddiweddarach, yn barod ar gyfer y cyfnod ymgynghori o 12 wythnos cyn ei gymeradwyo'n derfynol a'i gyhoeddi erbyn Hydref 31^{ain} 2006.

3. Atal Tân Cymru

Mae'r corff elusennol hwn yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth y Cynulliad a'r gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru i geisio gostwng nifer y marwolaethau a'r anafiadau oherwydd tân yng Nghymru. Mae gwybodaeth i'w gael ar www.ataltan.org.

Cynhaliwyd cynhadledd lwyddiannus Walesfire dros dri diwrnod yn Llandudno ym Mai 2006. Denodd y digwyddiad amrywiaeth eang o randdeiliaid a phobl â diddordeb a ddaeth i fynychu anerchiadau gan siaradwyr gwadd, gweithdai ac arddangosfeydd yn ymwneud â thân ac achub.

4. Diogelwch Cymunedol yn ehangach

Fe wnaethom ni adrodd yn ein Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau yn 2005 ein bod ni hefyd, yn unol â'n nodau a'n hamcanion corfforaethol, wedi ymrwmo i chwarae ein rhan, lle bo hynny'n synhwyrol, mewn diogelwch cymunedol yn gyffredinol, nid yn unig mewn perthynas â diogelwch tân. Er mwyn hynny, rydym yn parhau i ddatblygu ein gallu i ymateb i argyfyngau lleol megis ar y ffyrdd neu ddigwyddiadau'n ymwneud â dŵr yn ogystal ag argyfyngau sydd â goblygiadau ehangach megis digwyddiadau cemegol, biolegol, radiologol a niwclear.

DRAFFT I'W GYMERADWYO

Trwy gydol 2005-06 roedd y Gwasanaeth yn parhau i godi ei broffil o fewn y saith ardal sirol, gan weithio ar y cyd â nifer o bartneriaid a sefydliadau er mwyn gwella diogelwch y cyhoedd. Roedd y dull hwn wedi cael ei ddechrau y flwyddyn flaenorol ar ôl yr ailstrwythuro pan sefydlwyd saith ardal sirol yn lle'r tri rhanbarth – un yn ardal pob awdurdod unedol, ac un ychwanegol yng Ngwynedd oherwydd ei maint.

5. Y System Integredig Datblygiad Personol (IPDS)

Yn y Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau dros dro y llynedd, fe roesom ni arwydd o'n hymrwymiad i barhau i ddefnyddio'r system newydd hon i yrru gwelliannau mewn perthynas â datblygu gallu cyffredinol y Gwasanaeth i gyflawni ein gweledigaeth o gael cymuned fwy diogel.

Mae'r Gwasanaeth wedi mabwysiadu fwyfwy y prosesau newydd i asesu a datblygu, a hynny ar gyfer recriwtio staff newydd ac ar gyfer asesu potensial ymgeiswyr i fynd yn eu blaenau a datblygu mewn rôl newydd.

I ddechrau, sefydlwyd Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a Choleg y Gwasanaeth Tân yn Swydd Gaerloyw (yng Ngorffennaf 2005) i ymorol am gyfraniad y Cynulliad i weithredu IPDS yn yng Nghymru. Roedd y Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn cynnwys cyllid tuag at secondio aelod o staff Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i Ganolfan IPDS gyda'r rôl benodol o gefnogi'r gwaith o weithredu IPDS yng Nghymru. Wedi i Ganolfan IPDS ddod i ben yn Rhagfyr 2005, parhawyd â rôl y swyddog cefnogol ar gyfer Cymru trwy gydol blwyddyn ariannol 2005-06.

Aeth y tri gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru ati i gael proses recriwtio ar y cyd yn ystod y flwyddyn, a'r tri yn defnyddio rhywfaint neu bob agwedd ar y broses genedlaethol o ddethol diffoddwyr tân.

Mae rhagor o wybodaeth am y materion hyn sy'n ymwneud â gwella i'w cael ein gwefan ni, ac ar wefan y Cynulliad:

Y dudalen ar wefan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru:

<http://www.gwastan-gogcymru.org.uk/page.asp?page=74>

Y tudalennau ar wefan y Cynulliad:

<http://new.wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/safety/fire/?lang=cy>

<http://new.wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/safety/fire/circulars/?lang=cy>

GWELLIANNAU PENODOL YN 2005-06

Mae dadansoddiad llawn o'r dangosyddion perfformiad a'r targedau i'w cael yn Adran 5, ond o ddiddordeb arbennig mae:

Tanau:

Disgynnodd cyfanswm y tanau yr aeth Gogledd Cymru atynt 6%, sef o 4414 yn 2004-05 i 4143 yn 2005-06.

Yn galonogol, roedd y gostyngiad mewn prif danau – h.y. y tanau mwy difrifol sy'n aml yn danau mwy – lawer yn well na'r targed eleni. O 1827 yn 2004-05, fe wnaethom ni geisio gostwng y nifer hwn i 1800 yn 2005-06 trwy gynyddu ein gwaith atal yn y gymuned. Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd y targed wedi ei wella hyd yn oed 60 o danau yn llai.

Mae'r amcangyfrifon o nifer y stoc domestig yn chwe ardal yr awdurdodau unedol yn y Gogledd, a gyhoeddwyd yn yr Ystadegau mwyaf diweddar ar Dai yng Nghymru, yn awgrymu bod mymryn dros 299,000 o gartrefi yn yr ardal. Yn ystod 2005-06, aeth y Gwasanaeth Tân ac Achub at 501 o danau damweiniol mewn cartrefi, sy'n cyfateb i 1 tân mewn bron i 600 o gartrefi, neu tua 1.6 ym mhob 1,000 o gartrefi.

Mae hyn yn cymharu'n dda â chanfyddiadau'r Arolwg Byw yng Nghymru mwyaf diweddar a ganfu fod tua 12 o bob 1,000 o gartrefi yng Nghymru wedi cael tân ar ryw adeg yn ystod 2004.

Fodd bynnag, ni chyrhaeddwyd targed eleni o ostyngiad i 490 o danau damweiniol mewn cartrefi, a byddwn yn parhau i ddarparu gwasanaethau atal trwy fentrau diogelwch tân cymunedol ac archwiliadau diogelwch tân yn y cartref.

Yr Amcangyfrifon o'r Stoc Cartrefi:

http://new.wales.gov.uk/legacy_en/keypubstatisticsforwales/content/publication/housing/2004/whs2004/whs2004-ch1/whs2004-t1-4.xls

Arolwg Byw yng Nghymru ar Dân a Diogelwch Tân:

http://new.wales.gov.uk/legacy_en/keypubstatisticsforwales/content/publication/other/2005/sdr92-2005/sdr92-2005.pdf#search=%22living%20in%20wales%20survey%202004%22

Galwadau Ffug Maleisus

Disgynnodd nifer y galwadau ffug maleisus a arweiniodd at anfon injan dân allan yn ddiangen o 271 yn 2004-05 i 237 yn 2005-06. Dim ond cyfran fechan o gyfanswm nifer y galwadau o'r fath sy'n cael eu derbyn gan Weithredwyr yr Ystafell Reoli bob blwyddyn. Trwy fod yn fedrus yn rheoli galwadau, maent yn gallu gwahanu bron i dri chwarter

DRAFFT I'W GYMERADWYO

y galwadau ffug maleisus hyn, a gadael ein criwiau a'r injanau tân yn rhydd i ymateb i alwadau go iawn am gymorth.

Absenoldebau Salwch:

Er bod y gyfradd absenoldebau salwch trwy'r Gwasanaeth wedi methu cyrraedd y targed cenedlaethol heriol a osodwyd, fe wnaethom ni er hynny lwyddo i'w ostwng 28%, sy'n galonogol, ac mae'n cyfateb i ostyngiad sylweddol o 3.5 diwrnod/shifft i bob person.

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth:

Cyrhaeddwyd ein targedau ar gyfer y Safon Cydraddoldeb a'r Cynllun Cydraddoldeb Hiliol.

Lluniwyd ein Cynllun Iaith Gymraeg diweddaredig, ac ymgynghorwyd yn ei gylch cyn ei gyhoeddi.

Roedd nifer y merched a gyflogid fel diffoddwragedd tân yn dal i godi yn 2005-06:

	2002-03	2003-04	2004-05	2005-06
Llawn Amser	4	4	7	8
Rhan Amser	12	15	15	18
Cyfanswm	16	19	22	26

ARGYMHELLION YR ARCHWILIAD

Arweiniodd yr archwiliad gan Swyddfa Archwilio Cymru o'n Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau 2005-06 dros dro at dri argymhelliad ar gyfer gwella, a daethant i law yn Chwefror 2006. Daeth argymhelliad pellach i sicrhau bod yr argymhellion hynny'n cael eu dilyn.

A1 Er mwyn mesur perfformiad yr Awdurdod mewn perthynas â phob amcan corfforaethol a mentrau sy'n codi o'r Cynllun Integredig Rheoli Risg, dylid datblygu nifer fechan o ddangosyddion perfformiad lleol a thargedau, a'r rheini'n rhai cadarn.

Cyflawnwyd hyn i ryw raddau, ond mae oedi yn y cynnydd.

Yn dilyn yr adolygiad gan y Cynulliad o'r Dangosyddion Strategol Cenedlaethol a'r Gyfres o Ddangosyddion Craidd ar gyfer yr Awdurdodau Unedol yng Nghymru, mae ymarferiad tebyg yn cael ei wneud gan y Cynulliad i lunio cyfres o ddangosyddion a mesurau ar gyfer yr awdurdodau tân ac achub yng Nghymru. Mae rhai o'r swyddogion wedi arwain ar rannau penodol o'r gwaith datblygu hwn, ac yn parhau i gymryd rhan yn y prosiect yn gyffredinol.

Roedd y newid o Gynlluniau Integredig Rheoli Risg i Gynlluniau Lleihau Risg ym Mawrth 2006 yn gofyn am lunio cynllun ar gyfer y Gwasanaeth i gyd ar gyfer 2007-08 o fewn rhai wythnosau. Unwaith y bydd y Cynllun hwn wedi ei fabwysiadu'n ffurfiol, cytunwyd fel Gwasanaeth y gellir dechrau ar ddatblygu cyfres o ddangosyddion lleol ar gyfer y Cynllun, gan gymryd i ystyriaeth y gyfres derfynol a gaiff ei llunio gan Grŵp Datblygu Dangosyddion Perfformiad y Cynulliad.

Mae system gofnodi ac adrodd ar gyfer Adnoddau Dynol wedi cael ei gosod, gan roi rhagor o hyblygrwydd yr oedd mawr ei angen. Gyda phosibiliadau'r system newydd, bydd modd llunio dangosyddion ehangach am y gweithlu a chydaddoldeb, ac adrodd yn eu herbyn, ac nid oedd hyn yn bosib gyda'r hen system.

A2 Dylid ystyried cynnwys targedau hirdymor ar gyfer y dangosyddion sydd o bwys strategol.

Bydd hyn yn cael ei wneud yn ystod blwyddyn ariannol 2006-07 fel rhan o fabwysiadu'r Fframwaith diwygiedig ar gyfer Rheoli Perfformiad sy'n integreiddio pob elfen o Gynllunio Gwasanaethau, Cynlluniau Lleihau Risg, Cynllunio ar gyfer Gwella dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella, a Chynllunio Ariannol.

A3 Adnabod y materion sy'n ymwneud â Rheoli Perfformiad sy'n codi o arweiniad Llywodraeth y Cynulliad ar Raglen Cymru ar gyfer Gwella a fydd yn sail i agenda'r Awdurdod yn y dyfodol.

DRAFFT I'W GYMERADWYO

Gwnaed hyn fel rhan o'r broses ar gyfer llunio Fframwaith newydd ar gyfer Rheoli Perfformiad sy'n cael ei wneud gan Swyddfa Archwilio Cymru.


Adran 3

EIN CYMHARU EIN HUNAIN AG ERAILL

Cyhoeddwyd Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau 2004-05 ym Mehefin 2006 ar gyfer yr holl awdurdodau tân ac achub yng Nghymru a Lloegr. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn aelod o grŵp cymharu, neu 'Grŵp Teulu 3', ynghyd â Cumbria, Dyfnaint, Swydd Henffordd a Chaerwrangon, Gogledd Swydd Efrog, Swydd Lincoln, a Chanolbarth a Gorllewin Cymru.

Nid yw Awdurdod Tân ac Achub De Cymru yn cael ei ystyried yn un i'w gymharu â'r ddau Awdurdod arall yng Nghymru, ac mae'n perthyn i grŵp cymharu arall sef 'Grŵp Teulu 4'.

Mae'r graffiau isod yn dangos y cyfartaledd yn y grŵp teulu, y cyfartaledd yng Nghymru, a'n perfformiad ni yn 2004-05.



Adran 4

BLAENORIAETHAU AR GYFER GWELLA YN 2006-07

Ymdrin â'r Risgiau Cymunedol

Wedi mabwysiadu ein Cynllun Integredig Rheoli Risg cyntaf yn 2003, fe wnaethom ni lunio dau gynllun gweithredu blynyddol arall i gyflawni'r bwriadau gwreiddiol hynny. Mae "Cynnal y Momentwm" yn nodi'r hyn yr oeddem ni'n anelu ato o ran y risgiau cymunedol yn ystod 2006-07.

1. Newid Rhai o'r Peiriannau Brys Rheng Flaen

Cyflwyno chwech o beiriannau aml-ddiben pwrpasol, ac addasu pedwar arall, i alluogi'r Gwasanaeth i gwrdd â'r safon cyrraedd o 10 munud.

Rheoli'r dasg raddol o gael gwared ar y pedwar tendr argyfwng, yn dilyn uwchraddio'r holl offer achub hydrolig sydd ar injanau tân rheng flaen.

2. Lleihau Nifer y Galwadau Diangen Dro ar ôl Tro

Trwy weithio gyda sefydliadau eraill, dod o hyd i ffyrdd i ostwng nifer yr adegau y mae'r Gwasanaeth yn cael ei alw allan yn ddiangen i ymateb i alwadau diangen dro ar ôl tro gan larymau tân awtomatig mewn eiddo annomestig.

3. Treialu Cyd-ymateb

I ymateb i'r angen yng Ngwynedd a nodwyd gan y Gwasanaeth Ambiwlans allan ar yr un pryd â'r Ambiwlans at argyfyngau meddygol sy'n fygythiad i fywyd pan fo adnoddau'r gwasanaeth tân ac achub yn haws eu cael). Mae hyn hefyd yn cyd-fynd ag un o nodau Llywodraeth y Cynulliad yn ei Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub.

4. Ymgysylltu fwy â Chymunedau Gwledig

Cyflwyno pecyn diogelwch tân cymunedol sy'n cwrdd ag anghenion cartrefi yng Ngogledd Cymru sydd fwy nag 20 munud i ffwrdd o un o'n 44 o orsafoedd tân. Bydd hyn yn golygu archwiliadau diogelwch tân yn y cartref, larymau mwg a chymorth i wneud cynlluniau dianc.

5. Cael Gwell Systemau Lleoli

DRAFFT I'W GYMERADWYO

Gwirio bod gennym yr wybodaeth fwyaf cywir am leoliadau er mwyn rhoi cymorth i'r criwiau tân ddod o hyd i eiddo ar frys, a defnyddio technolegau newydd i ddod o hyd i leoliadau yn awtomatig ac yn sydyn, ynghyd â'r adnoddau mwyaf priodol sydd gan y gwasanaeth tân ac achub i'w hanfon allan.

6. Datblygu System Drosfwaol i Fonitro Perfformiad

Cyflwyno system drosfwaol sy'n gallu darparu llwyfan adrodd sy'n gyson, yn hawdd i'n staff a'r cyhoedd gael ato, er mwyn monitro'r gwahanol linyddau o ddata am berfformiad, megis rhai am ddigwyddiadau brys, y gweithlu, gwaith archwilio ac atal, a gwybodaeth ariannol.

7. Gwella Cysylltiadau Corfforaethol

Gwella ein cysylltiad â'n holl randdeiliaid, yn fewnol ac yn allanol, gan godi proffil y Gwasanaeth a gwella ei effeithiolrwydd yn gyffredinol.

8. Mynd i'r afael â Llosgi Bwriadol

Dadansoddi pa mor effeithiol yw'r Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol, gan ddod o hyd i ffyrdd i wella ym maes strategaeth llosgi bwriadol ac adeiladau ar y berthynas sydd gennym gyda Heddlu Gogledd Cymru.

Gweithgareddau Gwella

Yn ogystal â mynd i'r afael â risgiau cymunedol, mae'r Gwasanaeth yn ymwneud ag amrywiaeth o weithgareddau heriol i wella, llawer ohonynt yn rhai newydd a'r rhan fwyaf ohonynt yn rhai a wneir gyda'r adnoddau presennol.

9. Adolygu'r Ddarpariaeth o Reolwyr ar yr Ochr Weithredol

Gofalu ein bod yn parhau i wneud y defnydd gorau o'n rheolwyr gwerthfawr a medrus, o ystyried natur newidiol eu llwyth gwaith.

10. Ymateb i'r Agenda Gymreig Ehangach

Ceisio ffyrdd i ymateb yn effeithiol gyda'r adnoddau presennol i strategaethau a pholisïau'r llywodraeth megis *Creu'r Cysylltiadau*, a *Cymru Gwlad Well*, ac adroddiadau cenedlaethol megis *Ar Draws Ffiniau*.

11. Addasu i Ofynion Newydd

DRAFFT I'W GYMERADWYO

Gweithio i amserlenni a gofynion newydd o ran cynllunio'r Gwasanaeth a ddaeth trwy *Cymru Gwlad Fwy Diogel*, y Safonau Gwasanaeth, Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella, a Phroses Asesu'r Ochr Weithredol.

12. Cydymffurfio â Deddfwriaeth Newydd

Sicrhau ein bod yn barod am newidiadau yn dilyn y newidiadau yn y gyfraith, yn benodol eleni mewn perthynas â'r Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân), y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Oedran.

13. Delio â Materion y Gweithlu

Gwella rheoli presenoldeb; gweithio tuag at Wobr Aur Iechyd Galwedigaethol; cyflwyno y System Integredig Datblygiad Personol yn raddol (gan gynnwys Canolfannau Asesu a Datblygu) a gweithdrefnau newydd ar gyfer recriwtio; gwneud trefniadau ar gyfer y newidiadau mewn pensiynau; goruchwyllo'r newid o rengoedd i rolau; a chefnogi lles, iechyd a diogelwch y staff.

14. Yr Ystafell Reoli a Chysylltiadau

Sicrhau'r cysylltiadau gorau posib er mwyn effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y Gwasanaeth.

15. Parhad Busnes

Sicrhau gallu parhaus y Gwasanaeth i wrth sefyll a chyflwyno gwasanaeth yn wyneb ymosodiadau neu amgylchiadau na ellir eu rhagweld.

16. Llywodraethu Cryf

Cyflwyno rhaglen newydd i Ddatblygu'r Aelodau; a hybu atebolrwydd, gonestrwydd a thryloywder mewn arweinyddiaeth a gwneud penderfyniadau.

17. Adlewyrchu'r Boblogaeth Leol

Trwy gamau cadarnhaol, polisiâu ac ymddygiad, hybu cael gweithlu sy'n wirioneddol amrywiol sy'n parchu ac yn dyrchafu ei amrywiaeth ei hun fel un sy'n adlewyrchu'r boblogaeth y mae'n ei gwasanaethu.

18. Darparu Gwasanaethau yn Economaidd

Sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy o fewn y cyllidebau sydd ar gael trwy gynllunio'n ofalus, defnyddio adnoddau'n effeithlon, a chaffael nwyddau a gwasanaethau yn ddoeth.

DRAFFT I'W GYMERADWYO

TARGEDAU AR GYFER GWELLA YN 2006-07

DPGG	Diffiniad	Targed 2006-07	Sylwadau
142ii	Prif danau	1680	Mae hyn yn cymryd y bydd y targedau ar gyfer BV206, 206(i) a 206(ii) yn cael eu cyrraedd, ac yn cymryd bod nifer y prif danau damweiniol yn aros yr un fath (1079). $1079 + 601 = \mathbf{1680}$ (sy'n hafol i ostyngiad o 3.4% ar 1740).
142iii	Tanau damweiniol mewn cartrefi	486	Mae hyn yn ceisio cael gostyngiad o 3% yn y nifer yn 2005-06. $501 \text{ tynnu } 3\% = \mathbf{486}$
143i	Marwolaethau oherwydd Tanau damweiniol mewn cartrefi	3	Y targed yn 2005-06 oedd 4. Mae'r targed hwn yn dal i anelu at ostwng nifer y marwolaethau oherwydd tân.
143ii	Anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi	50	Mae hyn yn ceisio cael gostyngiad o 3% ar y nifer yn 2005-06. $51 \text{ tynnu } 3\% = \mathbf{50}$
144	% o'r tanau damweiniol mewn cartrefi a gyfyngwyd i'r ystafell lle cychwynnodd	90%	Mae hyn yn anelu at godi'r ganran a gyfyngwyd, ond yn cydnabod y bydd yr her yn fwy os cyrhaeddir BV142iii
